**Defnyddiwch y templed hwn i ddrafftio eich ymatebion i'w cyflwyno drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein.**

**Tystiolaeth gan: Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)** | **Disused Mine and Quarry Tips (Wales) Bill**

# Nid oes angen i chi ateb pob cwestiwn, dim ond y rhai yr hoffech rannu gwybodaeth amdanynt neu rai y mae gennych farn amdanynt.

## 1. Beth yw eich barn am egwyddorion cyffredinol y Bil, ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

I grynhoi, rydym yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil, ynghyd â bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r polisi a nodwyd.

Cytunwn fod y ddarpariaeth bresennol bellach wedi dyddio a bod angen mynd i'r afael â'r risgiau mewn modd cyson a strwythuredig.

Mae ein sylwadau yn unol â'r rhai a wnaed yn flaenorol ynghylch y Papur Gwyn ac er nad oes angen eu hystyried yn uniongyrchol o reidrwydd yng ngeiriad penodol y Bil, credwn ei bod yn bwysig bod y geiriad yn cael ei ystyried mewn perthynas â'n sylwadau a bod datblygiadau pellach yn eu hystyried.

Credwn ei bod yn bwysig cofio bod llesiant dynol yn fwy na'r risgiau uniongyrchol, a nodir fel "bygythiad i fywyd" sy'n gysylltiedig â symudiad tomen ansefydlog. Mae'n bwysig cydnabod y gall fod canlyniadau anfwriadol i'r Bil yn yr ystyr bod pobl yn dod yn fwy ymwybodol o bresenoldeb tomenni yn eu cymunedau a bod hyn wedyn yn cael effeithiau seicolegol, wedi'i ddilyn gan effeithiau ar iechyd corfforol.

Dywedir y bydd y Bil yn helpu i "ddiogelu cymunedau a diogelu seilwaith hanfodol". Er mwyn gwneud hyn mewn ffordd sy'n amddiffyn iechyd corfforol a meddyliol yn llawn, ac sy'n cydnabod bod niwed i iechyd yn ymestyn y tu hwnt i fygythiad i fywyd, mae angen cynnal asesiad manylach o'r risgiau na'r hyn a wnaethpwyd hyd yma.

O ystyried lleoliad daearyddol y tomenni hyn, mae potensial hefyd y bydd llawer mwy o faich ar iechyd a gwasanaethau iechyd yn ardaloedd rhai Byrddau Iechyd. Mae angen ystyried hyn o ran y cyllid a fydd ar gael ar gyfer gwaith adfer.

Credwn hefyd fod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i botensial ystod o effeithiau newid hinsawdd ar sefydlogrwydd y tomenni; cyfeirir atynt am law trwm, ond mae sychder a thanau gwyllt hefyd yn debygol o achosi risg sylweddol i sefydlogrwydd y tomenni.

Er mwyn sicrhau y rhoddir cyfrif am y canlyniadau hyn, rydym yn argymell:-

1) Y dylai'r Awdurdod Tomenni nas Defnyddir gynnwys cynrychiolaeth o Fyrddau Iechyd y Cyhoedd ac Iechyd yng Nghymru

2) Bod angen asesu, cofrestru a monitro gan gyfeirio at ddemograffeg y boblogaeth, proffiliau iechyd ac yng nghyd-destun anghydraddoldebau poblogaeth a'r newid yn yr hinsawdd. Y dylai hefyd ystyried y cyd-destun y seilwaith a'r risgiau sydd ynghlwm ag amharu ag ef; gallai hyn hefyd effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol.

## 2. Beth yw eich barn am ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn y Rhannau isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 1 - Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru (adrannau 1 i 5 ac Atodlen 1)**

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Rydym yn cefnogi sefydlu Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru.

Rydym yn cytuno y dylai'r asiantaethau a restrir gael eu cynrychioli ar yr Awdurdod. Fodd bynnag, o ystyried y goblygiadau i iechyd y cyhoedd, iechyd a'r gwasanaethau iechyd, credwn y dylid ymestyn y gynrychiolaeth y bydd yr awdurdod yn ei chael i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd Cymru, o leiaf, ac o bosibl hefyd i Weithrediaeth y GIG.

Rydym hefyd yn awgrymu y dylai'r Awdurdod gydnabod nad yw'r bygythiad i lesiant dynol yn gyfyngedig i risg i fywyd, ond bod goblygiadau iechyd meddwl a chorfforol llawer ehangach hefyd.

## 3. Beth yw eich barn am ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn y Rhannau isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 2 - Asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir (adrannau 6 i 32 ac Atodlen 2)**

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Rydym yn croesawu symud i asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd ystyried "risg o ansefydlogrwydd" yn unig yn methu ag asesu holl risgiau tomen yn briodol. Mae tomen sydd â risg uchel iawn o fod yn ansefydlog sydd wedi'i leoli mewn ardal anghysbell iawn yn peri pryder isel iawn mewn gwirionedd o ran iechyd dynol ac anghydraddoldebau. Mae tomen sydd â risg isel, ond sy'n agos at gymuned boblog iawn, gyda chyfran uchel o bobl agored i niwed, â phryderon iechyd meddwl a chorfforol sylweddol ac mewn ardal ddifreintiedig iawn yn bryder llesiant dynol llawer mwy.

Rydym yn awgrymu y dylai'r "ansefydlogrwydd" gael ei ystyried yng nghyd-destun strwythur a lleoliad y domen ei hun, yn ogystal â'r boblogaeth gyfagos a'r seilwaith a allai gael ei effeithio arno. Byddem yn annog ystyried demograffeg y boblogaeth, proffiliau iechyd, anghydraddoldebau poblogaeth, newid hinsawdd o ran tanau gwyllt a sychder, yn ogystal â lefel y glaw, a'r cyd-destun seilwaith a'r risgiau o amharu ar hyn; gall hyn hefyd effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol.

## 4. Beth yw eich barn am ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn y Rhannau isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 3 - Ymdrin ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni (adrannau 33 i 54 ac Atodlen 3)**

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Dim byd pellach i'w ychwanegu - gweler y sylwadau blaenorol

## 5. Beth yw eich barn am ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn y Rhannau isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 4 - Darpariaeth atodol (adrannau 55 i 70)**

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Dim byd pellach i'w ychwanegu - gweler y sylwadau blaenorol

## 6. Beth yw eich barn am ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn y Rhannau isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 5 – Cyffredinol (adrannau 71 i 88)**

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Dim byd pellach i'w ychwanegu - gweler y sylwadau blaenorol

## 7. Beth yw'r rhwystrau posibl rhag rhoi darpariaethau'r Bil ar waith a sut y mae'r Bil yn eu hystyried?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Dim byd pellach i'w ychwanegu - gweler y sylwadau blaenorol

## 8. Pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Dim byd pellach i'w ychwanegu - gweler y sylwadau blaenorol

## 9. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn debygol o ddeillio o'r Bil?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Mae gennym nifer o bryderon yn y cyd-destun hwn.

Fel y nodwyd, mae hanes tomenni glo yng Nghymru yn drist ac mae hyn yn rhan o'r rheswm dros ein pryderon mewn perthynas â'r potensial ar gyfer niwed ehangach i iechyd meddwl a chorfforol sy'n gysylltiedig â hwy.

1) Trwy ystyried ansefydlogrwydd yn nhermau'r risg y mae'n ei beri i fywyd yn unig mae potensial i fethu ag asesu risgiau ehangach presenoldeb y domen ynghylch iechyd meddwl a chorfforol a'r risgiau i'r seilwaith.

2) Yn gysylltiedig â hyn, gall cyhoeddi cofrestr roi'r perchnogion eu hunain mewn perygl gan bobl sy'n pryderu am fodolaeth tomen neu'r ffordd y mae'n cael ei rheoli. Hyd yn oed os na fydd perchnogion yn cael eu henwi'n uniongyrchol, mae'n bosibl y byddai modd darganfod enwau'r perchnogion wrth ddefnyddio gwybodaeth leol.

3) Gallai cyhoeddi'r gofrestr hefyd niweidio iechyd drwy wneud pobl yn ymwybodol o domen yn eu hardal nad oeddent eisoes yn ymwybodol ohoni.

4) Er ei bod yn bwysig nodi a rhestru'r tomenni, ynghyd ag annog perchnogion i gymryd cyfrifoldeb am reoli diogelwch, mae perygl y bydd perchnogion nad ydynt yn gallu rheoli'r safleoedd yn cefnu arnynt, a fyddai'n cynyddu'r risg y byddai problemau yn codi, ynghyd â chost i bwrs y wlad o'u rheoli.

## 10. Beth yw eich barn am asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau ariannol y Bil fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Dim byd pellach i'w ychwanegu - gweler y sylwadau blaenorol

## 11. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi ynghylch y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef neu unrhyw faterion cysylltiedig?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu tua 500 o eiriau ar y mwyaf).

Dim byd pellach i'w ychwanegu